

Gwybodaeth i Gleifion sy'n derbyn

Impiad Asgwrn

Yma yn Ysbyty Brenhinol Gwent rydym yn gweithredu "Banc Esgyrn". Mae hyn yn golygu casglu esgyrn sydd fel arfer wedi'u rhoi o'r neilltu yn ystod llawdriniaeth i roi clun newydd. Caiff asgwrn ei gadw mewn rhewgell tymheredd isel sydd wedi'i adeiladu'n bwrpasol, nes y penderfynir ei fod yn addas i'w impio ar glaf arall.

O ble daeth yr asgwrn?

Mae'r asgwrn a dderbyniwyd yn ystod llawdriniaeth i roi clun newydd, wedi'r roi gan glaf wnaeth gydsynio i hynny. Mae'r rhoddwr o glaf wedi derbyn taflen wybodaeth debyg i hon ac wedi cwblhau holiadur yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i benderfynu a ydyw'n ymgeisydd addas i roi asgwrn ai peidio.

A gafodd y rhoddwr ei brofi am unrhyw glefyd ac ati?

Ar ôl derbyn cydsyniad y rhoddwr i gael defnyddio ei esgyrn a gafodd eu rhoi o'r neilltu, caiff brawf gwaed i brofi am Hepatitis B a C, Syphilis, HTLV (feirws lewcemia cell-T dynol) a HIV (y feirws sy'n achosi AIDS).

Caiff profion pellach eu cynnal ar samplau a gymerwyd o'r asgwrn pan gafodd ei dynnu o'r rhoddwr.

Gofynnir i'r rhoddwr ddychwelyd i'r clinig chwe mis ar ôl y llawdriniaeth, a chymerir ail sampl o waed, a chynhelir y profion i gyd eto.

Sut ydych chi'n penderfynu a ydy'r asgwrn yn addas ac yn dderbyniol i'w ddefnyddio?

Dim ond pan fydd canlyniad pob prawf yn negyddol y gellir defnyddio'r asgwrn.

Gellir. Mae pob impiad asgwrn a dderbynnir, yn cael cod adnabod unigryw y gellir ei olrhain yn ôl i'r rhoddwr. Mae'r holl gofnodion yn ymwneud â'r rhoddwr a'r derbynnnydd yn gyfrinachol ac fe'u cedwir felly am un mlynedd ar ddeg o leiaf.

Os ydych am ragor o wybodaeth am dderbyn impiad asgwrn, cysylltwch
 â:- Ruth Jenkins (Cyddlynnydd y Banc Esgyrn) neu Kerry Cross (Dirprwy
 Gydlynnydd ar:- **01633 234214**.

This image shows a blank sheet of white paper with horizontal ruling lines. The lines are evenly spaced and run across the width of the page. There are no margins or other markings on the paper.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English."**